



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  
(Cymru) 2014**

---

# **Gwerthusiad Ariannol ac Economaidd**

**Costau y gellir eu priodoli a gweithredu Deddf  
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  
(Cymru) 2014**

---

Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## **Gwerthusiad Ariannol ac Economaidd**

Costau y gellir eu priodoli a gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ceri J. Phillips, Malcolm Prowle, Shaun Harris a Mark Llewellyn

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-200-7

## Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Tynnwyd ynghyd y tîm ymchwil o: Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru (PDC); Prifysgol Abertawe; Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Bangor.



Cardiff  
Metropolitan  
University



Mae'r Adroddiad Terfynol y mae'r ddogfen hon yn berthnasol iddo i'w weld yma:

<https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Adran Gwasanaethu Cymdeithasol ac Integreiddio

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

[research.healthandsocialservices@gov.wales](mailto:research.healthandsocialservices@gov.wales)

## Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chyd-destun.....	1
	Cyd-destun .....	2
	Strwythur yr adroddiad.....	5
2.	Nodau a Chynllun y Gwerthusiad.....	5
	Trosolwg o ddulliau gweithredu.....	5
	Dadansoddiad cost a budd.....	8
	Fframwaith Canlyniadau/Buddiannau.....	10
	Fframwaith costau.....	12
	Materion a brofwyd wrth nodi a chasglu data .....	14
	Methodolegau casglu data cost a gwariant .....	15
3.	Canlyniadau a Chyfyngiadau – Costau, Canlyniadau a Buddion .....	19
	Costau – Awdurdod Lleol .....	19
	Ffynonellau cyllid nad ydynt yn rhai craidd .....	23
	Costau – Byrddau Iechyd.....	25
	Costau – Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cyhoeddus .....	25
	Canlyniadau/Buddion .....	25
4.	Casgliadau ac Argymhellion.....	28
	Costau .....	28
	Canfyddiadau cyffredinol.....	28
	Argymhellion .....	29
	Cyfeiriadau.....	31

## Rhestr Tablau

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth.....	1
Tabl 1.2: Gwariant Gofal Cymdeithasol (£ miliwn) .....	3
Tabl 1.3: Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.....	4
Tabl 3.1: Camau mewn CBA.....	8
Tabl 4.1: Costau sydd i'w Priodoli – Awdurdod Lleol 1 .....	19
Tabl 4.2: Costau sydd i'w Priodoli – Awdurdod Lleol 2 .....	20
Tabl 4.3: Cynnydd a gostyngiadau mewn cyllid – Amcan 2 (Awdurdod Lleol 3) .....	22
Tabl 4.4: Cyllid y Gronfa Gofal Integredig (ICF) (£ miliwn).....	24

## **Rhestr Ffigurau**

Ffigur 3.1: Strwythur Eang CBA .....	8
Ffigur 3.2: Cysylltiadau CBA .....	11
Ffigur 3.3: Fframwaith costau.....	12
Ffigur 4.1: Amcan 1 – cymariaethau rhwng Awdurdod Lleol 1 a 2.....	21

## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru a chynghorwyr arbenigol i gyflawni gwerthusiad o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf').
- 1.2 Mae'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol – [astudiaeth IMPACT](#)<sup>1</sup> - wedi bod yn rhedeg ers mis Tachwedd 2018 ac yn cael ei arwain gan yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru (PDC) ochr yn ochr â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe.
- 1.3 Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr eraill o PDC, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor a Chanolfan PRIME Cymru, ac fe'u cefnogir gan [Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth](#) (SERG)<sup>2</sup> gyda'i dri chyd-gadeiryddion dinasyddion.
- 1.4 Mae'r Ddeddf yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 'newidiadau trawsnewidiol' ym mholisi, rheoleiddio a threfniadau darparu gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Mae iddo 11 rhan ac mae wedi'i hysbysu gan bum egwyddor ac yn cyd-fynd ag ef mae strwythurau, prosesau a chyfres o Godau Ymarfer.

**Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth<sup>3</sup>**

Egwyddorion	Meysydd
Llesiant	Dinasyddion
Llais a rheolaeth	Teuluoedd a Gofalwyr
Cydgynhyrchu	Cymunedau
Gweithio aml-asiantaethol	Gweithlu
Atal ac ymyrraeth gynnar	Sefydliadau

<sup>1</sup> Gellir gweld ffilm ragarweiniol ddwyieithog yn egluro strwythur yr astudiaeth yma: [Ffilm gwerthuso'r Ddeddf / Act evaluation film – WIHSC - YouTube](#)

<sup>2</sup> I gael rhagor o wybodaeth am y SERG, gweler: [Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth | Prifysgol De Cymru](#)

<sup>3</sup> Darperir diffiniadau ar gyfer yr egwyddorion hyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru (<https://socialcare.wales/resources-guidance/information-and-learning-hub/sswbact/overview>) ac maent wedi'u cynnwys yng Ngeirfa'r ddogfen hon.

## Cyd-destun

1.5 Nod yr adran hon yw gosod y gwerthusiad hwn yng nghyd-destun y Ddeddf. Mae'n gwneud hyn drwy ystyried y meddylfryd y tu ôl i gostau a buddion y Ddeddf, a'r data cysylltiedig sydd ar gael yn gyhoeddus ar wasanaethau cymdeithasol.

### *Cyrraedd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf*

1.6 Mae gweithredu Deddf mor arwyddocaol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWBA) yn anochel yn golygu ymrwymo ystod sylweddol o adnoddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'r pum prif thema hyn, sy'n haeddu ystyriaeth ofalus yng nghyd-destun gofal iechyd darbodus. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)<sup>4</sup> a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf yn nodi bwriad i'w roi ar waith fesul cam dros dair i bum mlynedd gan ddechrau yn 2015/16. O ganlyniad, cydnabuwyd bod cryn ansicrwydd ynghylch llawer o'r costau a'r manteision a ddarparwyd yn yr RIA.

1.7 Cafodd amcangyfrifon o rai o'r costau a'r manteision sy'n debygol o godi o fabwysiadu'r opsiynau a ffefrir eu cynnwys yn yr RIA a phenderfynwyd ar werth presennol net o £2.1 biliwn. Awgrymodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai manteision ychwanegol gweithredu'r Ddeddf yn drech na'r costau ychwanegol o'i rhoi ar waith, a thrwy hynny'n cynrychioli elw ar fuddsoddiad yng nghyd-destun gofal sy'n seiliedig ar werth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwydd o sut y daethpwyd i'r ffigur hwn o £2.1 biliwn, cyflawnder y costau a'r manteision a gynhwyswyd a faint o hyder y gellid ei roi yn yr amcangyfrifon cynnar hyn.

1.8 Cydnabuwyd hefyd bod angen gwaith costio pellach i nodi costau a manteision pan ddaw manylion y rheoliadau a fyddai'n dilyn o dan y Ddeddf yn gliriach. Roedd yr RIA wedi nodi meysydd lle'r oedd costau a manteision ychwanegol yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i weithredu, ond nododd hefyd fod rhai agweddau ar weithredu a fyddai'n debygol o fynd i gostau, ond ni fyddai'r rhain yn amlwg hyd nes y byddai'r cynlluniau'n weithredol, gyda'r costau ychwanegol mawr yn disgyn ar awdurdodau lleol o ganlyniad i hyfforddiant a'r amser sydd ei angen i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

---

<sup>4</sup> Mae'r RIA yn rhan o'r Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014: [pri-ld9181-em-r-e.pdf \(senedd.wales\)](#)

## Data Gwasanaethau Cymdeithasol

- 1.9 Cyhoeddir data ar wariant gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, wedi'i ddadansoddi fesul is-faes cyllidebol ac awdurdod lleol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffurflenni alldro referiw (RO) ac yn monitro tueddiadau mewn gwariant i asesu effeithiau polisi Llywodraeth Cymru.
- 1.10 Mae data Tabl 1.2 yn dangos bod gwariant gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru wedi cynyddu ers cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Cynyddodd cyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol o £3.9 biliwn yn 2014-15 i £4.8 biliwn yn 2020-21, sef cynnydd o 23.53%. Mae'r gyfran fwyaf o wariant gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â phobl 65 oed a hŷn, ac yna gwariant ar wasanaethau i blant a theuluoedd. Roedd gan y ddau faes cyllidebol hyn gynnydd mewn gwariant dros y cyfnod hwn o 19.2% a 30.3% yn y drefn honno.

**Tabl 1.2: Gwariant Gofal Cymdeithasol (£ miliwn)<sup>5</sup>**

Categori	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Gwasanaethau plant a theuluoedd	574	575	599	636	684	747	820
Gwasanaethau pobl hŷn	752	735	753	789	837	896	1,055
Oedolion dan 65 oed ag anabledd corfforol	121	121	123	131	130	126	128
Oedolion dan 65 oed ag anableddau dysgu	382	399	419	435	454	478	487
Oedolion dan 65 oed ag anghenion iechyd meddwl	92	93	100	104	106	104	107
Gwasanaethau oedolion eraill	27	40	47	48	52	65	70
<b>Cyfanswm Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>1,961</b>	<b>1,974</b>	<b>2,050</b>	<b>2,153</b>	<b>2,270</b>	<b>2,423</b>	<b>2,693</b>

<sup>5</sup> [Gwasanaethau Cymdeithasol \(gov.wales\)](https://www.gov.wales). Ceir crynodeb o ddata ar weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol am gyfnod bywyd y Ddeddf yn yr Adroddiad Terfynol sydd ar gael o <https://www.llyw.cymru/adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>



Cynnydd Blynyddol		0.66%	3.84%	5.00%	5.43%	6.75%	11.17%

- 1.11 Gwelwyd y cynnydd blynyddol mwyaf yng ngwariant gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2020-21 yn dilyn pandemig COVID-19. Fodd bynnag, roedd cyfradd twf sylweddol pan gynyddodd gwariant gwasanaethau cymdeithasol dros y cyfnod 2014-15 i 2020-21.
- 1.12 Mae Tabl 1.3 yn dangos cyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru dros oes y Ddeddf. Mae'r data'n dangos bod niferoedd y cofrestreion (nad yw'r un peth â'r niferoedd yn y gweithlu gwirioneddol) wedi cynyddu 17.5% dros 5 mlynedd gyntaf y Ddeddf gyda chynnydd nodedig mewn rheolwyr gofal cartref cofrestredig (58.1%), rheolwyr gofal preswyl i blant (59.9%) a gweithwyr gofal preswyl i blant (39.5%). Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ond yn llai o faint. Ni chanfuwyd unrhyw newidiadau nodedig yn 2020 na 2021 yn y setiau data hyn yng ngoleuni'r achosion o COVID-19, gyda pharhad cyffredinol tueddiadau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

**Tabl 1.3: Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru<sup>6</sup>**

Categori gweithwyr	2016	2017	2018	2019	2020	2021
Gweithwyr cymdeithasol	6,063	5,965	6,133	6,263	6,293	6,470
Rheolwyr cartrefi gofal oedolion	1,263	1,218	1,213	1,304	1,294	1,314
Rheolwyr gofal cartref	618	633	642	773	913	977
Rheolwyr gofal plant preswyl	187	195	205	231	256	299
Gweithwyr gofal plant preswyl	2,269	2,482	2,666	2,894	2,975	3,165
<b>Cyfanswm y gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig</b>	<b>10,400</b>	<b>10,493</b>	<b>10,859</b>	<b>11,465</b>	<b>11,731</b>	<b>12,225</b>
Gweithwyr gofal cartref	-	-	-	-	19,637	22,131

<sup>6</sup> [Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru](#). Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Dim ond ers 2020 y bu'n ofynnol i weithwyr gofal cartref gofrestru felly nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y gweithlu cofrestredig.

## **Strwythur yr adroddiad**

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried goblygiadau ariannol ac economaidd gweithredu'r Ddeddf, drwy ystyried costau y gellir eu priodoli i'r broses honno o weithredu. Mae'n gwneud hyn drwy gyfres o benodau fel a ganlyn:

- Nodau a Chynllun y Gwerthusiad
- Canlyniadau a chyfyngiadau – Costau, a Chanlyniadau/Buddion
- Casgliadau ac Argymhellion

## **2. Nodau a Chynllun y Gwerthusiad**

2.1 Ar ddechrau'r prosiect, nod y gwerthusiad hwn oedd gwneud y canlynol:

- cynnal dadansoddiad cost a budd i roi amcangyfrif 'mwy cywir' o'r costau a'r manteision i gael dangosydd o'r elw ar fuddsoddiad;
- penderfynu pa sefydliadau sy'n ysgwyddo'r costau ychwanegol a pha rai a fyddai'n derbyn buddion sy'n cronni; a
- archwilio graddau'r gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon gwreiddiol ac amcangyfrifon gwariant ychwanegol 'mwy cywir' sydd wedi dod i'r amlwg yn dilyn gweithredu'r Ddeddf a'i meysydd cydrannol.

### **Trosolwg o ddulliau gweithredu**

2.2 Yn dilyn yr adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan y tîm (Phillips et al., 2020), daeth cyfres o negeseuon allweddol i'r amlwg ynghylch y dulliau methodolegol y gellir eu defnyddio i asesu costau a manteision ar gyfer rhaglenni deddfwriaeth cymhleth megis y Ddeddf.

2.3 Cynigiodd Marsh et al (2012) fod angen i ymchwil ystyried ystod ehangach o dechnegau modelu, wedi'u hwyluso gan ddata da ar ganlyniadau ymddygiadol, er mwyn helpu i gasglu'r holl gostau a manteision sy'n berthnasol i asesu ymyriadau iechyd y cyhoedd. Mae angen asesu hyn ochr yn ochr â defnyddio 'patrymau prisio' sy'n cynnwys y dull galluoedd a'r dull llesiant goddrychol.

2.4 Cydnabu Sanders et al (2017) heriau a chymhlethodau defnyddio modelau cost-ffeithiolrwydd mewn gwahanol gyd-destunau gofal cymdeithasol a gofal iechyd, yn enwedig pan fo cymaint o amrywiaeth o offer a modelau gwahanol i werthuso iechyd economaidd gwasanaethau penodol. Ychwanegwyd, er mwyn i offer modelu

ymyriadau fod yn llwyddiannus, y dylent gael eu cydgynhyrchu gan ddylunwyr yr ymyriad a'r defnyddwyr eu hunain.

- 2.5 Disgrifiodd Teresi et al (2017) gymhlethdod asesu cost-effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd â dangosyddion ansawdd bywyd, a nodwyd hefyd gan Frick a Kunz (2008) a nododd anawsterau mesur gwelliannau mewn llesiant mewn modd gwrthrychol, a'r anawsterau o briodoli'r gwelliannau hynny mewn llesiant i effaith uniongyrchol yr ymyriad, er eu bod yn cydnabod bod nifer o ddulliau ar gael.<sup>7</sup>
- 2.6 Ymhellach, dadleuodd Stein et al (2016) mai ychydig a wyddys am fesur gwelliannau yn y defnydd o adnoddau o ganlyniad i ofal integredig, yn rhannol oherwydd y ffaith bod diffyg dulliau digonol, yn rhannol oherwydd methiant i gynnwys gwerthusiad economaidd yn y dylunio, cynllunio a gweithredu gofal integredig.
- 2.7 Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oes consensws clir ynghylch pa un yw'r dull a ffefrir ar gyfer mesur a gwerthfawrogi'r costau a'r manteision sy'n deillio o ymyriadau a rhaglenni gwasanaethau cyhoeddus, ac felly mae angen i werthuswyr fod yn glir ynghylch y cynllun a'r dull a ddefnyddir a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu fel bod llunwyr polisi yn cael eu hysbysu'n llawn o'r rhybuddion y dylid eu cymhwyso i'r canfyddiadau a gynhyrchir.
- 2.8 Mae gwerthusiad economaidd yn ceisio asesu i ba raddau y mae rhaglen, prosiect, ymyriad, cynllun neu, yn yr achos hwn, gweithredu'r Ddeddf yn darparu buddion ychwanegol o gymharu â'r costau ychwanegol yr eir iddynt. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau at ddiben o'r fath, lle mae'r dewis o dechneg yn dibynnu ar natur y buddion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r term cost-effeithiolrwydd wedi dod yn gyfystyr â gwerthuso economaidd ac wedi'i ddefnyddio (a'i gamddefnyddio) i ddangos i ba raddau y mae 'ymyriadau' yn cyfateb i'r hyn y gellir ei ystyried sy'n cynrychioli gwerth am arian. Mae Dadansoddiad Cost-effeithiolrwydd (CEA) wedi'i ddiffinio gan NICE, er enghraifft, fel cynllun astudiaeth economaidd lle caiff canlyniadau gwahanol ymyriadau eu mesur gan ddefnyddio un canlyniad, fel arfer mewn unedau 'naturiol' (er enghraifft, blynyddoedd bywyd a enillwyd, marwolaethau a gafodd eu hosgoi,

---

<sup>7</sup> Trafodir y materion hyn yn fanwl yn yr adroddiad 'Llesiant' (Lyttleton-Smith et al, 2022) a gynhyrchwyd yn yr astudiaeth, y gellir ei gyrchu o <https://www.llyw.cymru/llesiant-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>


trawiadau ar y galon a gafodd eu hosgoi, neu achosion a ganfuwyd), a'r ymyriadau'n cael eu cymharu o ran cost fesul uned effeithiolrwydd. Nid oedd CEA felly yn briodol ar gyfer ein hasesiad o weithrediad SSWBA oherwydd bodolaeth dau fesur canlyniad yn ein cynllun - gwelliannau yn y defnydd o adnoddau, a gwelliannau mewn llesiant, y ddau yn amlochrog eu natur.

- 2.9 Ymhellach, oherwydd natur y buddion sy'n debygol o ddeillio o weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, nid yw'n bosibl defnyddio'r dechneg, a ddefnyddir yn eang mewn perthynas ag asesu technoleg iechyd – sef Dadansoddiad Cost Cyfleustodau (CUA), sy'n trosi allbynnau a chanlyniadau i 'arian cyfred cyffredin' – y QALY, neu'r Flwyddyn Bywyd wedi'i Haddasu gan Ansawdd – a lle gellir cymharu effeithiolrwydd ymyriad mewn un maes therapiwtig â chost-effeithiolrwydd ymyriad mewn maes gwahanol. Yr her gyda defnyddio CUA neu CEA yw y bydd y gwerthusiadau economaidd yn dibynnu ar ddefnyddio un metrig ac, yn ôl pob tebyg, yn methu â dal yr holl effeithiau o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf. Mae cyfyngiadau o'r fath wedi arwain at ddefnyddio dulliau amgen, lle mae buddion yn lluosog ac yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau sectorau, megis Dadansoddiad Cost-Canlyniad (CCA) neu Ddadansoddiad Cost a Budd (CBA). Fodd bynnag, nid yw'r rhain heb eu problemau. Er bod CCA yn darparu 'mantolen' o ganlyniadau y gall llunwyr polisi eu pwysu a'u mesur yn erbyn costau ymyriad, yr anfantais yw nad yw'n darparu unrhyw ganllawiau ar sut y dylid pwysu a mesur y gwahanol ganlyniadau a gynhwysir yn y 'fantolen' yn erbyn ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o broblemus pan fydd canlyniadau'n symud i gyfeiriadau gwahanol.
- 2.10 Yn CBA mae'r costau a'r canlyniadau yn cael eu mynegi mewn termau ariannol, felly yn ogystal â gallu gwneud cymariaethau ar draws pob maes gofal iechyd, gellir gwneud cymariaethau hefyd â rhaglenni a chynlluniau mewn, er enghraifft, addysg, trafnidiaeth, yr amgylchedd ac mewn darpariaeth gofal cymdeithasol. O ganlyniad i gyfyngiadau'r technegau eraill, mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (Trysorlys EM, 2003) yn argymhell CBA oherwydd ei allu i "ystyried y costau a'r manteision cymdeithasol ehangach" a darparu mesurau canlyniadau sy'n uniongyrchol yn debyg i gostau ymyrraeth.

## Dadansoddiad cost a budd

2.11 Yn dilyn y llenyddiaeth a amlinellwyd uchod a'r cyfyngiadau a oedd ynghlwm wrth y technegau eraill sy'n gysylltiedig â gwerthuso economaidd, y bwriad arfaethedig oedd cynnal CBA - arf iwtilitaraidd o ddadansoddiad economaidd a ddatblygwyd i gynorthwyo'r gwerthusiad cyffredinol o ystod eang o weithgareddau. Defnyddiwyd CBA yn eang i werthuso prosiectau seilwaith cenedlaethol mawr, prosiectau cyfalaf ar raddfa lai, rhaglenni gweithgaredd gwasanaethau cyhoeddus a mentrau deddfwriaethol / rheoleiddiol. Dangosir strwythur bras CBA isod yn Ffigur 3.1 (drosodd).

**Ffigur 3.1: Strwythur Eang CBA**



2.12 Sail CBA yw nodi'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â gweithgareddau, y canlyniadau a gynhyrchir gan y gweithgareddau a'r buddion sy'n deillio o'r canlyniadau hynny. Yna byddai maint y costau'n cael ei gymharu â gwerth y canlyniadau/buddiannau, gyda disgownt addas i gymryd i ystyriaeth amseriad y costau a'r manteision sy'n cael eu gwireddu.

2.13 Ar gyfer costau a manteision, mae sawl cam i CBA, a ddangosir yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1: Camau mewn CBA**

Cam	1	2	3	4
Teitl	<i>Adnabod</i>	<i>Mynegiant</i>	<i>Meintioli</i>	<i>Prisiad</i>
Disgrifiad	Nodi'r costau a'r manteision	Disgrifiad ansoddol o	Meintioli'r costau a'r	Mynegiant o'r costau a'r

	amrywiol a allai fod yn gysylltiedig	natur y gost / budd, ei bwysigrwydd a'i effaith debygol	manteision amrywiol gan ddefnyddio rhywfaint o raddfa anariannol	manteision meintiol amrywiol mewn termau ariannol
--	--------------------------------------	---	--	---



- 2.14 Ar gyfer pob eitem cost neu fudd a nodir, y nod yw 'teithio' mor bell i fyny'r continwmm hwn ag sy'n ymarferol bosibl o ystyried yr amser a'r adnoddau sydd ar gael. Ceir enghreifftiau lle mae CBA wedi cyflawni cam 4 ar gyfer y cyfan, neu'r rhan fwyaf o'r costau a'r manteision, megis Heartbeat Wales, Trydydd Maes Awyr Llundain, Llinell Jiwbilf y Rheilffordd Tanddaearol, yn fwy diweddar, y cyswllt rheilffordd HS2 lle mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r prosiect wedi'u nodi, eu mynegi, eu meintoli a'u gwerthfawrogi. Yn y rhan fwyaf o brosiectau eraill, mae llai o gynnydd wedi'i gyflawni ar hyd y continwmm, er y gallai rhai costau/buddiannau fod yn bosibl eu prisio. Efallai na fydd eraill yn symud ymhellach na'r cam ansoddol. Fodd bynnag, er mwyn bod yn ystyrlon, rhaid i CBA fod â rhyw lefel o ddata meintiol ac ni all fod yn ymarferiad ansoddol yn unig.
- 2.15 Ymhellach, wrth ddisgrifio'r dull CBA mae dau fater pwysig arall sy'n berthnasol ac yn haeddu ystyriaeth wrth ddylunio'r gwerthusiad:
- **Effaith priodoli** – mae hyn yn ymwneud ag i ba raddau y gellir priodoli canlyniadau a chostau yn 'uniongyrchol' i weithrediad y Ddeddf a pheidio â dod i'r amlwg neu ddeillio o weithgareddau eraill.
  - **Effaith dosbarthu** – mae hwn yn ystyried y ffordd y mae'r costau a'r manteision cyffredinol yn cael eu dosbarthu ar draws unigolion a sefydliadau. Er enghraifft, efallai y byddai holl fuddion cynllun yn cronni i un unigolyn/sefydliad, heb unrhyw fuddion i eraill, a fyddai'n golygu y gellid ystyried y cynllun yn effeithlon ond nid yn deg. Yn y bôn, dyma'r mater sy'n ymwneud ag ail nod y gwerthusiad – sef penderfynu pa sefydliadau sy'n ysgwyddo'r costau ychwanegol a pha rai a fyddai'n derbyn buddion sy'n cronni.

## **Fframwaith Canlyniadau/Buddiannau**

- 2.16 Y dull felly oedd defnyddio'r fframwaith CBA i werthuso effaith economaidd gweithredu'r Ddeddf a cheisio gwirio neu herio'r amcangyfrif a amlygwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol. Roeddem yn rhagweld dwy set allweddol o ganlyniadau a buddion a allai ddeillio o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf. Mae'r ddau fath hyn o ganlyniadau a buddion yn debygol o fod yn arwyddocaol ac o bosibl yn sylweddol.


### Llesiant

2.17 Gall defnyddwyr gwasanaeth a staff darparwyr gwasanaeth wella llesiant. Byddai disgwyl y gallai gwelliannau mewn llesiant ddeillio o weithgareddau sy'n cael eu cynnal o dan bob un o'r pum thema yr edrychir arnynt, a gallent ddod ar ffurf pethau fel gwell iechyd emosiynol, llai o unigrwydd ac arwahanrwydd, mwy o ddiogelwch ac ati.

### Defnydd o adnoddau cyhoeddus

2.18 Gallai ymgymryd â gweithgareddau o dan ymbarél SSWBA arwain at welliannau yn y defnydd o adnoddau cyhoeddus. Gallai hyn olygu pethau fel costau is, gwell effeithlonrwydd gweithredol, osgoi dyblygu ac ati. Yn benodol, roeddem o'r farn y byddai hyn yn ganlyniad a budd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n dod o dan ymbarél meysydd gwaith atal a gwaith aml-asiantaethol.

2.19 Mae Ffigur 3.2 yn dangos y cysylltiadau rhwng tri ffactor: llinynnau gweithgaredd, canlyniadau a buddion, y bwriadwyd iddynt wasanaethu fel y strwythur gwerthuso:



2.20 Y disgwyl oedd y gallai pob un o'r pum llinyn gynhyrchu canlyniadau mewn perthynas â gwell llesiant, tra byddai'r meysydd atal a gweithio amlasiantaethol



hefyd yn cyfrannu at y canlyniadau sy'n deillio o welliannau yn y defnydd o adnoddau.


- 2.21 Byddai pob canlyniad yn cael ei feintio a'i drosi'n werth ariannol, gan ddefnyddio dulliau confensiynol cydnabyddedig ac, fel sy'n ofynnol gan Drysorlys EM a chyrrff cyllido ac asesu eraill, yn cael eu disgowntio ar 3.5% y flwyddyn i adlewyrchu'r amser y daeth y canlyniadau i'r amlwg.

### Fframwaith costau

- 2.22 Roedd y bwriad yn ddeublyg o ran costau a gwariant, sef:

1. nodi'r mathau o gostau a ysgwyddir gan sefydliadau ar draws y system iechyd a gofal (a'r rhai a ysgwyddir gan unigolion) er mwyn darparu 'amcangyfrif mwy cywir' o'r costau a'r manteision sy'n deillio o weithredu SSWBA
2. archwilio graddau'r gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon gwreiddiol ac amcangyfrifon 'mwy cywir' o wariant ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg yn dilyn gweithredu'r Ddeddf a'i meysydd cydrannol. Mae mater costau sy'n ymwneud â gweithredu SSWBA yn gymhleth ac mae angen ei ystyried mewn perthynas â phedwar dimensiwn fel y dangosir yn Ffigur 3.3 – y mathau o gostau a ysgwyddir, y sefydliadau yng Nghymru a ysgwyddodd y costau, costau a ysgwyddwyd gan unigolion, a'r ffurf ffynhonnell y mae'r costau hyn wedi'u hariannu:

**Ffigur 3.3: Fframwaith costau**



### *Mathau o gostau*

2.23 Wrth geisio sefydlu proffil costau sy'n gysylltiedig â gweithredu SSWBA, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gostau y gellir eu hystyried yn driphlyg:

1. **Costau ariannol** – mae'r rhain yn ymwneud â gwariant cynyddrannol a dynnir i gaffael adnoddau (e.e. staff, nwyddau traul) i weithredu gofynion y Ddeddf. Dylid nodi y gall costau o'r fath fod ar ffurf gwariant cyfalaf ar asedau sefydlog (e.e. adeiladau, cerbydau) neu gostau rhedeg, megis staffio, nwyddau traul ac ati. Yn ymarferol, efallai y bydd rhywfaint o wariant o'r fath at sawl diben, gan gynnwys gweithredu'r Ddeddf. Yn yr achos hwn (fel y nodir uchod) rhaid ceisio sefydlu pa gyfran o'r gwariant hwnnw sydd i'w briodoli i'r Ddeddf.
2. **Costau cyfleoedd** – mewn rhai achosion, efallai y bydd adnoddau presennol (e.e. staff, adeiladau) yn cael eu dargyfeirio o weithgareddau presennol a'u symud tuag at weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Er na fyddai unrhyw wariant ychwanegol dan sylw, byddai cost cyfle ynghlwm wrth hynny, oherwydd ni fyddai'r adnoddau hynny bellach yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau 'gwreiddiol'.
3. **Costau cymdeithasol** - gallai hyn gael ei weld fel costau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r sefydliad, ond yn cael eu talu gan gymunedau, cymdeithas a'i unigolion (e.e. darparu cyfleusterau cymunedol a gweithgareddau a gefnogir gan wirfoddolwyr). Hefyd, gall rhai gweithgareddau arwain at gost (yn nhermau amser neu arian) i'w hysgwyddo gan, er enghraifft, y rhai sy'n derbyn gwasanaethau neu ofalwyr – a'u categoreiddio fel Costau unigolion.

### *Sefydliadau sy'n mynd i gostau*

2.24 Nododd Ffigur 3.3 y prif fathau o sefydliadau yng Nghymru sydd wedi mynd i gostau er mwyn gweithredu'r Ddeddf. Bydd llawer o'r cyllid dan sylw wedi'i drosglwyddo i asiantaethau gweithredu (e.e. awdurdodau lleol, darparwyr sector annibynnol a gomisiynir, byrddau iechyd), ond mae'n debyg y bydd rhywfaint o wariant uniongyrchol wedi'i ysgwyddo i gefnogi'r Ddeddf. Yn ogystal, heb os, byddai llawer o amser staff yn cael ei neilltuo gan weision sifil ac eraill i ddylunio a gweithredu'r Ddeddf.

### *Costau unigolion*

2.25 Mae'n debygol y bydd costau i unigolion sy'n derbyn pecynnau gofal o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf, tra gall fod unigolion eraill sy'n ymwneud â darparu gofal ar y cyd â'r asiantaethau statudol a sefydliadau trydydd sector. Mewn rhai achosion, efallai y bydd unigolion wedi mynd i gostau ariannol (e.e. costau teithio), ond efallai y bydd sefyllfaoedd hefyd lle mae costau amser wedi codi hefyd (e.e. cyfran uwch o 'ofal anuniongyrchol'). Er bod byrdwn SSWBA yn ymwneud â gwella llesiant pobl Cymru, mae'n bosibl bod sefyllfaoedd wedi codi lle mae llesiant wedi dirywio i rai o ganlyniad i'r Ddeddf – ac y cyfeirir atynt fel anfanteision neu gostau cymdeithasol (gweler 2.16).

### *Ffynonellau cyllid*

2.26 Mae angen cyllid ar gyfer gwariant. Yn enwedig mewn perthynas â chostau ariannol, mae'n bwysig cydnabod a gwahaniaethu ffynonellau ariannu'r costau ariannol amrywiol. Yn syml, gellir ystyried y rhain fel:

- **Cyllid craidd** – mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru gyllid craidd i ddarparu eu gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n deillio o ddyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru ac, mewn rhai achosion, refeniw a gynhyrchir ganddynt eu hunain.
- **Cyllid nad yw'n gyllid craidd** - Arian nad yw'n arian craidd, gwariant a ddarperir ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus penodol yw hwn yn hytrach na mynd i gronfa gyffredinol. Mae amryw o ffynonellau cyllid nad ydynt yn rhai craidd sy'n berthnasol i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn enwedig y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Grant Trawsnewid (TG).

### **Materion a brofwyd wrth nodi a chasglu data**

2.27 Roedd ein hymagwedd yn seiliedig ar argaeledd data sy'n bodoli a fyddai'n caniatáu inni wneud asesiadau o gostau a manteision y Ddeddf. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd nad oedd unrhyw set ddata o'r fath wedi'i chasglu o adeg rhoi'r Ddeddf ar waith, sy'n golygu bod diffyg data sy'n sail i'r Fframwaith Costau (gweler uchod).

2.28 Er gwaethaf ceisiadau niferus i amrywiaeth o ffynonellau a sawl ymholiad yn ystod yr ymchwil, ni ddaeth unrhyw ddata ar gostau na manteision a gafwyd mewn

perthynas â gweithredu'r Ddeddf i'r amlwg gan unrhyw un o'r rhanddeiliaid allweddol.

2.29 Roedd y diffyg data a'r ymgysylltiad cyfyngedig yn arwyddocaol iawn ac yn broblematic ac arweiniodd at ailystyriaeth sylfaenol o'r cynllun a'r methodolegau. Roedd hefyd yn cyfaddawdu unrhyw ymgais i gynnal dadansoddiad cost a budd<sup>8</sup>, ac felly symudodd y ffocws i fynd i'r afael â dau amcan:

1. Amcangyfrif y costau cyffredinol a ysgwyddir wrth weithredu'r Ddeddf
2. Penderfynu ar y costau cynyddrannol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf

2.30 Er mwyn mynd i'r afael â'r amcanion hyn a bodloni'r fanyleb, datblygwyd set o dulliau pwrpasol a phragmatig.

#### *Gwariant y gellir ei briodoli a gweithredu'r Ddeddf*

2.31 Fel y nodwyd uchod, yr her oedd yn wynebu tîm yr astudiaeth oedd nad oedd unrhyw ddata wedi'i gasglu a oedd yn holi'n benodol am y costau (neu'r manteision) sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf. Er mwyn lliniaru hyn, a chyda chydweithrediad nifer fach o awdurdodau lleol, cychwynnodd y tîm ymarfer i geisio ail-greu proffil cost y Ddeddf drwy ofyn i awdurdodau lleol nodi llinellau gwariant yn eu cofnodion cyfrifyddu, a oedd, mewn rhyw ffordd, i'w briodoli i weithrediad y Ddeddf.

2.32 Ein nod oedd y byddai data a gafwyd gan yr awdurdodau lleol peilot hyn wedyn yn cael ei ddefnyddio i allosod i ffigur Cymru gyfan ar gyfer costau gweithredu'r Ddeddf yn yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai'r broses wedi cynnwys cymryd rhai dosbarthiadau o wariant ac allosod y rhain i gyfanswm cenedlaethol yn seiliedig ar wariant gwasanaeth a/neu anghenion am wasanaeth, yn seiliedig ar niferoedd (ar gyfer pob awdurdod lleol) yr henoed yn y boblogaeth, nifer y plant yn y boblogaeth ac ati.

#### **Methodolegau casglu data cost a gwariant**

2.33 Gan adeiladu ar hyn, rhoddir manylion yma sy'n amlinellu'r dulliau penodol a ddefnyddiwyd i nodi a dadansoddi'r costau dan sylw.

#### *Awdurdodau lleol*

---

<sup>8</sup> Cesglir data ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru, ond nid yw'n ddigon parhaus na chyson at y dibenion y bwriadwyd ei ddefnyddio ar gyfer y gwerthusiad hwn.

- 2.34 Nodwyd mai awdurdodau lleol yng Nghymru oedd prif asiantau gweithredu'r Ddeddf a thybiwyd ei bod yn hanfodol cael data costau a manteision ganddynt. O ystyried y diffyg data sy'n bodoli a ddisgrifir uchod, a chyda chydweithrediad nifer fach o awdurdodau lleol, fe wnaethom gychwyn ymarfer i geisio ail-greu proffil cost costau gweithredu'r Ddeddf o gofnodion cyfrifyddu sylfaenol. Gofynnwyd i ADSS Cymru helpu i 'recriwtio' awdurdodau lleol, a chawsom gytundeb gan dri awdurdod lleol a oedd yn barod i geisio nodi:
1. Llinellau gwariant yn eu cofnodion cyfrifyddu a oedd, mewn rhyw ffordd, i'w priodoli i weithrediad SSWBA
  2. Canran y llinell wariant honno y gellir ei phriodoli i SSWBA.
- 2.35 Wrth wneud hyn, gwahaniaethwyd rhwng gwariant a ariennir gan ffynonellau cyllid nad ydynt yn rhai craidd (e.e. y Gronfa) ac o adnoddau craidd yr awdurdod lleol. Buom yn cydweithio ag uwch reolwyr gwaith cymdeithasol a rheolwyr cyllid o bob un o'r awdurdodau i roi eu hamcangyfrif gorau o'r ganran briodoli honno. Roedd hyn yn gymhleth oherwydd, fel y nododd rheolwyr gofal cymdeithasol, dros gyfnod gweithredu'r Ddeddf, roedd nifer o yrwyr allweddol eraill i wariant ar ofal cymdeithasol, sef:
- poblogaeth sy'n heneiddio;
  - caledi;
  - pandemig COVID-19;
  - proses Brexit a'i heffaith ar y gweithlu; a
  - newidiadau polisi eraill sy'n berthnasol i'r Ddeddf.
- 2.36 Cynhaliwyd yr ymarfer hwn mewn modd strwythuredig i sicrhau cysondeb o ran arfer ar draws awdurdodau lleol. Yn absenoldeb data cadarn, ystyriwyd mai cael amcangyfrifon o wariant y gellir ei briodoli i weithredu'r Ddeddf gan uwch reolwyr sy'n ymwneud â gwasanaethau oedd y dull gorau posibl.
- 2.37 Ein nod oedd y byddai data a gafwyd gan yr awdurdodau lleol peilot hyn yn cael eu defnyddio i allosod i ffigur Cymru gyfan ar gyfer costau gweithredu'r SSWBA yn awdurdodau lleol Cymru. Byddai'r broses wedi cynnwys cymryd rhai dosbarthiadau o wariant ac allosod i gyfanswm cenedlaethol, yn seiliedig ar wariant gwasanaeth

a/neu anghenion am wasanaeth, yn deillio o niferoedd (ym mhob awdurdod lleol) yr henoed, plant, ac ati yn y boblogaeth.

#### *Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus*

- 2.38 Yn ogystal â'r awdurdodau lleol, gwnaethom nifer o ymholiadau am amser staff swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â rhoi'r Ddeddf ar waith. Cynhaliwyd sgysiau i geisio nodi costau perthnasol. Fodd bynnag, ac fel gydag awdurdodau lleol, nid oedd unrhyw set ddata penodol wedi'i chadw ar adeg ei gweithredu, nid oedd neb ar gael i gynnig unrhyw fewnwelediad i'r amser sydd ynghlwm â hynny, ac felly nid oedd yn bosibl amcangyfrif costau. Yn yr un modd, nid oedd data gan asiantaethau Llywodraeth Cymru (fel Arolygiaeth Gofal Cymru) a chyrrff cyhoeddus eraill (fel Gofal Cymdeithasol Cymru) wedi'u casglu ar y pryd, ac nid oedd yn bosibl ôl-osod costau.

#### *Byrddau Iechyd*

- 2.39 Gan ddefnyddio cynrychiolwyr o'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol yr Astudiaeth, gwnaethom gysylltu â phob bwrdd iechyd yng Nghymru, gydag ymateb cymharol gadarnhaol gan un, a gwnaethom geisio cynnal ymarfer tebyg i'r hyn a wnaed gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl iddynt nodi gweithgareddau (y tu allan i'r rhai a ariennir gan y ICF/TG) y gellid dweud eu bod i'w priodoli i'r Ddeddf ac sy'n debygol o fod yn sylweddol. Cafwyd awgrym o'r ymgysylltiad cyfyngedig a gawsom ag un o'r byrddau iechyd y gallent fod wedi ariannu rhai gweithgareddau'n ymwneud â'r Ddeddf o'i gyllid craidd, ond ni fu'n bosibl nodi beth allai hyn fod.

#### *Sefydliadau darparu – y trydydd sector a'r sector annibynnol*

- 2.40 Ledled Cymru, mae nifer fawr o sefydliadau trydydd sector wedi rhoi amrywiaeth o weithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu'n graidd ar waith sy'n berthnasol i weithredu'r Ddeddf. Gellir ystyried bod y costau hyn i'w priodoli 100% i weithrediad y Ddeddf – mae rhywfaint o'r wybodaeth lefel uchel hon ar gael o fewn trefniadau ariannu'r Gronfa.
- 2.41 Ar gyfer asiantaethau'r sector annibynnol – a gomisiynir yn nodweddiadol gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth – ni wnaethpwyd unrhyw ddull uniongyrchol, o ystyried nifer ac ystod y sefydliadau darparu, yr

anawsterau o ran canfod costau gan awdurdodau lleol, a'r wybodaeth nad oedd unrhyw ddata'n bodoli ar y costau gweithredu.

*Unigolion a chymunedau*

- 2.42 Fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach, dyma dalaith costau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw wybodaeth berthnasol o gydrannau eraill y gwerthusiad i seilio amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau hyn arni.

### 3. Canlyniadau a Chyfyngiadau – Costau, Canlyniadau a Buddion

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r costau amrywiol sy'n gysylltiedig â gweithredu SSWBA.

#### Costau – Awdurdod Lleol

3.2 Fel y disgrifir ym Mhennod 2, cafwyd data gan dri awdurdod lleol, ond roedd pob un o'r rhain wedi amrywio yn y dulliau manwl a ddefnyddiwyd. Fel y nodwyd yn gynharach, penderfynwyd strwythuro ein hymagwedd yn erbyn dau amcan: costau cyffredinol y gellir eu priodoli a chostau cynyddrannol.

#### *Amcan 1 – Priodoliadau cyffredinol*

3.3 Roedd hyn yn ymwneud â dau o'r awdurdodau lleol ac yn ymwneud ag amcangyfrif lefel gyffredinol y costau y teimlent oedd i'w priodoli ym mhob blwyddyn ariannol i weithredu SSWBA, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y gwariant ar draws llinellau cyllideb. Roedd hyn yn cynnwys unrhyw wariant newydd ychwanegol a dynnwyd wrth roi'r Ddeddf ar waith, ynghyd â chost unrhyw adnoddau presennol gan awdurdodau lleol a oedd wedi'u hailgyfeirio a'u cymhwyso i'w rhoi ar waith. Ymgwymerwyd ag ystod eang o weithgareddau (rhy niferus i'w rhestru) drwy'r gwariant hwn a dim ond ychydig o enghreifftiau oedd: swyddi gwaith cymdeithasol newydd, cymorth ôl-ofal, cymorth i fabwysiadwyr, datblygu eiriolaeth, gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ac ati.

3.4 Dangosir canlyniadau Awdurdod Lleol 1 yn Nhabl 4.1 (isod).

**Tabl 4.1: Costau sydd i'w Priodoli – Awdurdod Lleol 1**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Priodoliad</b> (% o gyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol y gellir ei briodoli i weithrediad y Ddeddf)
2014-15	57.0%
2015-16	55.8%
2016-17	76.2%
2017-18	49.6%
2018-19	24.1%
2019-20	25.0%
2020-21	30.4%



<b>CYMEDR</b>	<b>43.9%</b>
---------------	--------------

- 3.5 Gwelodd yr awdurdod hwn fod gwariant gwasanaethau cymdeithasol wedi codi tua 40% rhwng 2014-15 a 2020-21. Mae cyfran y gwariant yr oeddent yn teimlo y gellir ei briodoli i weithrediad y Ddeddf yn cynrychioli tueddiad gwrthdro siâp-U bras gyda gwariant yn codi hyd at 2016-17 cyn disgyn yn gyffredinol hyd at 2019-20. Mae cynnydd blynyddol o dros 10% o gyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol a welwyd ar gyfer 2020-21 yn debygol o fod yn gysylltiedig ag anghenion ychwanegol mewn ymateb i COVID-19, ac amcangyfrifir y bydd gwariant y gellir ei briodoli yn cynyddu rhwng 25% a 59% yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.6 Mae data gwariant blynyddol yn dangos bod gwariant ar gyfanswm y gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu 35% rhwng 2014-15 a 2020-21 gyda chynnydd blynyddol o 11.5% yn 2020-21. Cynyddodd gwasanaethau plant 51.3% ers 2014-15, tra bod gwariant ar wasanaethau i bobl hŷn a gwasanaethau i oedolion o dan 65 oed wedi cynyddu 28% dros y cyfnod hwn.
- 3.7 Dangosir canlyniadau Awdurdod Lleol 2 yn Nhabl 4.2.

**Tabl 4.2: Costau sydd i'w Priodoli – Awdurdod Lleol 2**


<b>Blwyddyn</b>	<b>Ffactor priodoli</b> (% o gyfanswm gwariant y gwasanaethau cymdeithasol y gellir ei briodoli i weithrediad y Ddeddf)
2014-15	79.2%
2015-16	66.5%
2016-17	49.5%
2017-18	20.0%
2018-19	14.5%
2019-20	2.5%
2020-21	2.5%
<b>CYMEDR</b>	<b>30.5%</b>

- 3.8 Mae data gan Awdurdod Lleol 2 yn dangos bod gwariant y gellir ei briodoli ar gyfer pob categori ar ei uchaf yn 2014-15/2015-16 cyn gostwng mewn blynyddoedd diweddarach, gyda gwariant y gellir ei briodoli ar bobl hŷn a phlant yn cyfrif am y

cyfrannau mwyaf o wariant a gwerthoedd sy'n weddol debyg ar gyfer y ddau grŵp hyn. Yn unol ag Awdurdod Lleol 1, bu cynnydd bach mewn gwariant y gellir ei briodoli yn 2020-21, o bosibl o ganlyniad i wariant COVID-19. Mae data gwariant blynyddol yn dangos bod gwariant ar gyfanswm y gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu 41% rhwng 2014-15 a 2020-21. Dros y cyfnod hwn, cynyddodd gwariant ar wasanaethau plant 34%, gwasanaethau i bobl hŷn 69%, a gwasanaethau i oedolion o dan 65 oed 20%. Yn 2020-21 gwelwyd cynnydd o 14.2% yng nghyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol o flwyddyn i flwyddyn.

3.9 Mae'r ddwy senario'n dangos bod lefelau priodoli yn gymharol uchel ar gyfer y blynyddoedd cyn y Ddeddf ac ar ôl y Ddeddf, oherwydd costau sy'n gysylltiedig â gweithredu, gyda blynyddoedd diweddarach â lefelau priodoli cymharol is wrth i awdurdodau lleol symud tuag at fodel 'busnes fel arfer' yn unol â thybiaethau'r Ddeddf. Dangosir hyn yn Ffigur 4.1.

**Ffigur 4.1: Amcan 1 – cymariaethau rhwng Awdurdod Lleol 1 a 2**



## Amcan 2 – Costau cynyddrannol

- 3.10 Roedd hyn yn ymwneud ag un awdurdod lleol ac yn ymwneud â'r costau cynyddrannol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf. Mewn perthynas ag Amcan 2, nod Awdurdod Lleol 3 oedd asesu'r costau cynyddrannol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf. Aethpwyd i'r afael â hyn gan yr ALI yn darparu newidiadau penodol mewn cyllid yn ystod gweithredu'r Ddeddf, gyda'r priodoliad yn deillio o echdynnu gwariant yn ymwneud yn benodol â chynnydd mewn cyllid a gostyngiadau cyllid ar gyfer pob categori gwariant (Tabl 4.3).

**Tabl 4.3: Cynnydd a gostyngiadau mewn cyllid – Amcan 2 (Awdurdod Lleol 3)**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Cynnydd mewn Cyllid</b> (% o gyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf)	<b>Gostyngiad Cyllid</b> (% o gyfanswm gwariant gwasanaethau cymdeithasol wedi'i leihau i weithrediad y Ddeddf)
2016-17	34.82%	0.00%
2017-18	37.07%	0.00%
2018-19	24.22%	3.77%
2019-20	38.13%	11.42%
2020-21	31.52%	15.83%
<b>CYMEDR</b>	<b>33.15%</b>	<b>6.20%</b>

- 3.11 Ni welwyd unrhyw duedd nodedig mewn cynnydd/gostyngiadau cyllid, a hynny oherwydd natur y casglu data, lle nodwyd ffynonellau cyllid unigol. Ar gyfer gwasanaethau oedolion, roedd y cynnydd mewn cyllid y gallir ei briodoli i'r Ddeddf yn llawer uwch yn y cyfnodau diweddarach ar ôl y Ddeddf; roedd y gostyngiadau mwyaf mewn cyllid hefyd yn y cyfnodau diweddarach ar ôl y Ddeddf. Roedd y cynnydd mwyaf yn y cyllid priodoladwy ar gyfer plant yn 2018-19 – tra gwelwyd gostyngiad tebyg mewn cyllid y gallir ei briodoli i wasanaethau oedolion ar gyfer yr un flwyddyn. Mae data gwariant blynyddol yn dangos bod gwariant ar gyfanswm y gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu 35% rhwng 2014-15 a 2020-21.

- 3.12 Dros y cyfnod hwn, cynyddodd gwariant ar wasanaethau plant 24%, gwasanaethau i bobl hŷn 35%, a gwasanaethau i oedolion o dan 65 oed gan 51%. Yn 2020-21 gwelwyd cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 34.7% yng nghyfanswm y gwariant.

*Sefyllfa costau Cymru gyfan – Awdurdodau Lleol*

- 3.13 Yn gynharach yn y bennod hon, soniasom y byddai data priodoledd a gafwyd gan y tri awdurdod lleol hyn wedyn yn cael eu defnyddio i allosod i ffigur Cymru gyfan ar gyfer costau gweithredu SSWBA yn awdurdodau lleol Cymru. O ystyried mai dim ond un pwynt data sydd gennym mewn perthynas ag Amcan 2 a dau bwynt data mewn perthynas ag Amcan 1, nid yw'r canlyniadau'n ddigonol nac yn rhy amrywiol i berfformio allosod i'r darlun cenedlaethol.
- 3.14 Fel y digwyddodd felly, ac i raddau helaeth oherwydd cymhlethdod y dasg, y diffyg data sy'n bodoli eisoes, a'r heriau capasiti a brofir gan reolwyr gofal cymdeithasol o ran methu â chefnogi'r agwedd hon ar y gwaith, ni allwn ddatblygu'r allosod Cymru gyfan o'r costau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf. Wedi dweud hynny, ac ar sail y data a ddarparwyd gan y tri awdurdod lleol a gyfrannodd, mae'n ymddangos bod y costau priodoli hyn yn debygol o fod wedi bod yn sylweddol.

**Ffynonellau cyllid nad ydynt yn rhai craidd**

- 3.15 Yn ogystal â chostau awdurdodau lleol, defnyddiwyd ffynonellau cyllid nad ydynt yn rhai craidd i roi'r Ddeddf ar waith. Mae'r mwyaf o'r rhain yn ymwneud â'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) yn rhaglen ataliol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a'i nod yw integreiddio ac annog cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, a'r trydydd sector a'r sector annibynnol i wella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru.<sup>9</sup>
- 3.16 Cyflwynwyd yr ICF rhwng 2014 a mis Mawrth 2022 pan gafodd ei disodli gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF). Roedd y Gronfa yn cynnwys dyraniadau cyfalaf a refeniw blynyddol ac fe'i dyrannwyd i'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dangosir dosbarthiad cyllid y Gronfa ar draws Cymru yn Nhabl 4.4 (drosodd).
- 3.17 Yn ystod ei oes o saith mlynedd, dyrannwyd tua £500 miliwn o'r cronfeydd hyn i'r rhanbarthau (drwy'r byrddau iechyd) i'w wario ar brosiectau a rhaglenni ar draws

---

<sup>9</sup> Am ragor ar ICF, gweler [Gwerthusiad Cronfa Gofal Integredig | GOV.WALES](#)

partneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sydd i bob pwrpas yn helpu i hwyluso'r gwaith partneriaeth a ragwelir gan Rhan 9 o'r Ddeddf.

- 3.18 Yn ogystal, mae ffynonellau cyllid eraill nad yw'n arian craidd, megis y Gronfa Drawsnewid, sef grant anghylchol o £100m a oedd ar gael i helpu cyrff cyhoeddus i roi *Cymru Iachach*<sup>10</sup> ar waith, a gyfrannodd at roi'r Ddeddf ar waith.
- 3.19 Fel y nodwyd yn flaenorol fodd bynnag, ni chasglwyd unrhyw ddata penodol yn rhagolygol ar i ba raddau y gellir priodoli'r cyfanswm gwariant hwn i weithrediad y Ddeddf ac nid oes modd cynnal dadansoddiad ôl-weithredol i wneud hyn.

**Tabl 4.4: Cyllid y Gronfa Gofal Integredig (ICF) (£ miliwn)<sup>11</sup>**

Rhanbarth	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Caerdydd a'r Fro	5.547	5.547	6.372	6.273	6.273	11.402	11.602	13.406
Cwm Taf Morgannwg	4.377	4.377	5.056	5.015	5.015	12.756	12.42	14.850
Gwent	8.095	8.095	9.238	9.073	9.073	15.928	16.476	18.630
Gogledd Cymru	10.739	10.739	11.426	11.452	11.595	19.812	20.152	22.460
Bae'r Gorllewin	7.805	7.805	8.371	8.345	8.424	-	-	-
Gorllewin Morgannwg	-	-	-	-	-	11.329	11.651	12.813
Powys			2.466	2.530	2.523	4.309	4.362	4.742
Canolbarth a Gorllewin Cymru	10.739	10.739	-	-	-	-	-	-
Gorllewin Cymru	-	-	6.417	6.487	6.567	11.442	11.874	13.403
<b>CYFANSWM</b>	<b>47.301</b>	<b>47.301</b>	<b>49.346</b>	<b>49.174</b>	<b>49.470</b>	<b>86.978</b>	<b>77.359</b>	<b>100.304</b>

- 3.20 O ystyried hyn, yr hyn y gellir ei ddweud yw ei bod yn debygol iawn y defnyddiwyd cyfran sylweddol o'r cronfeydd hyn i gefnogi gweithrediad y Ddeddf, ond ni ellir casglu union raddfa hyn. Bydd wedi amrywio rhwng sectorau (e.e. llywodraeth leol, y GIG, a'r trydydd sector) a rhwng rhanbarthau.

<sup>10</sup> I gael rhagor o wybodaeth am y Gronfa Trawsnewid a *Cymru Iachach*, gweler [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#) a [Cronfa trawsnewid Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 2018 i 2021: gwerthusiad | LLYW.CYMRU](#)

<sup>11</sup> Data wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

- 3.21 Felly, ein casgliad yw bod symiau sylweddol o arian cyhoeddus nad yw'n arian craidd wedi'u defnyddio i roi'r Ddeddf ar waith, ond mae diffyg data digon manwl yn golygu nad yw'n bosibl nodi brasamcan o'r symiau penodol dan sylw.

### **Costau – Byrddau Iechyd**

- 3.22 Fe wnaethom estyn allan at fyrddau iechyd fel y disgrifir uchod a cheisio cynnal ymarfer tebyg i'r hyn a wnaed gyda'r awdurdodau lleol ond heb lwyddiant. Roedd yn amlwg bod byrddau iechyd yn ymgymryd â gweithgareddau a oedd yn cael eu hariannu gan ICF/TF ac y gellir eu priodoli i'r Ddeddf. Mae'n debygol hefyd y bydd byrddau iechyd wedi ariannu rhai gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Ddeddf o'u cyllid craidd. Fodd bynnag, am resymau dealladwy o ystyried y pwysau ar gapasiti o fewn y GIG, roedd diffyg ymgysylltu gan fyrddau iechyd yn golygu nad oedd yn bosibl nodi costau y gellir eu priodoli i fyrddau iechyd o weithredu'r Ddeddf.

### **Costau – Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cyhoeddus**

- 3.23 Fel y disgrifir uchod, ni chasglwyd unrhyw ddata ar adeg rhoi'r Ddeddf ar waith am y tro cyntaf, ac nid oedd yn bosibl dadansoddi lefel y gost cyfle yn ôl-weithredol, sy'n mynegi mewn termau ariannol faint o amser y byddai ystod o swyddogion wedi'i wario o ran yr hyn sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf.

### **Canlyniadau/Buddion**

- 3.24 Ym Mhennod 2, fe wnaethom nodi mai ein dull gweithredu gwreiddiol oedd ystyried y canlyniadau a'r buddion posibl sy'n deillio o weithredu'r Ddeddf mewn dau brif fath.

#### *Gwelliannau mewn lles cleientiaid a staff*

- 3.25 Mae'n debyg y byddai hwn yn cael ei weld fel y mesur sy'n dangos orau'r buddion a'r canlyniadau sy'n deillio o weithredu'r Ddeddf. Felly, roeddem yn canolbwyntio ar dri maes:

- **Dadansoddiad o ddata llesiant cenedlaethol** – mae dadansoddiad o gwestiynau llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru<sup>12</sup> yn dangos, yn dilyn gweithredu'r Ddeddf, y bu gostyngiadau bach mewn llesiant ledled Cymru. Er bod y dadansoddiad yn destun nifer o

---

<sup>12</sup> Disgrifir hyn yn fanwl yn Lyttleton-Smith et al (2022), sydd ar gael yn <https://www.llyw.cymru/llesiant-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>

gyfyngiadau nodedig yn ymwneud â chysondeb ac argaeledd data, a nodi ymatebwyr a oedd yn derbyn gofal a chymorth, dangosodd sgorau ar gyfer 'teilyngdod bywyd' a 'hapusrwydd' ostyngiadau cymharol fach ond arwyddocaol yn ystadegol, tra gwelwyd cynnydd ar gyfer pryder hefyd. Mae angen bod yn ofalus gyda'r canfyddiadau oherwydd er y gall newidiadau mewn llesiant fod yn gysylltiedig i ryw raddau o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf, ni ellir rhagdybio bod y newidiadau wedi'u hachosi gan y Ddeddf yn unig. Cyflwynodd cymhlethdodau pellach, gan gynnwys yr achosion o COVID-19, anawsterau pellach wrth dynnu effaith y Ddeddf o ffactorau alldarddol a chymdeithasol ehangach.

- ***Dadansoddiad o gwestiynau llesiant y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru*** – dangosodd y dadansoddiad ostyngiadau bach ar draws mesurau llesiant yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf ar gyfer y boblogaeth gyffredinol a'r rhai sydd naill ai'n darparu cymorth neu'n debygol o gael cymorth. Serch hynny, mae llesiant yn gysyniad aml-ddimensiwn cymhleth, y mae pedwar mesur y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ceisio ei grynhoi. Mae adroddiad<sup>13</sup> y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn cyflwyno tueddiadau ym mhenderfynyddion llesiant ac yn dangos dylanwad ehangach y Ddeddf ar hyrwyddo llesiant i ofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal a chymorth, y tu hwnt i'r diffiniad o lesiant a gymhwyswyd yn yr adroddiad hwn.
- ***Argaeledd data llesiant meintiol gan gyfranogwyr*** – yn ystod y gwaith maes ar y prosiect hwn ceisiwyd nodi enghreifftiau lle gallai asiantaethau gweithredu fod wedi sefydlu eu systemau lleol eu hunain i gofnodi a gwerthuso gwelliannau mewn llesiant o ganlyniad i weithrediad y Ddeddf. Er bod rhai enghreifftiau o hyn yn bodoli (fel crynodebau data llesiant, a fesurir yn aml dros amser, a gasglwyd gan lywodraeth genedlaethol neu leol) nid oedd unrhyw ddata ychwanegol ar gael ar ffurf a fyddai'n caniatáu unrhyw archwiliad ystyrion o hyn o fewn ein dull methodolegol.
- ***Canfyddiadau ansoddol ar lesiant*** – mae canfyddiadau ansoddol ein gwerthusiad wedi'u nodi yng nghyhoeddiadau eraill yr astudiaeth.<sup>14</sup> Roeddem

---

<sup>13</sup> Gweler <https://gov.wales/social-services-national-outcomes-framework>.

<sup>14</sup> Gweler <https://gov.wales/evaluation-social-services-and-well-being-wales-act-2014> am fanylion ar y rhain.

wedi gobeithio y gallai'r data yn y cyfweiliadau roi mewnwelediadau y gellid eu cynnwys yn y dadansoddiad o fanteision yr oeddem yn gobeithio ei wneud. Fodd bynnag, mae natur y cyfweiliadau a'r naratifau a ddarparwyd a oedd yn disgrifio'n bennaf yr heriau i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o ran eu llesiant, yn golygu mai ychydig y gellir ei gasglu am effaith gadarnhaol y canfyddiadau hynny sy'n ddefnyddiol i'r CBA hwn.

*Gwelliannau yn y defnydd o adnoddau*

- 3.26 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth uniongyrchol a phenodol bod gweithredu'r Ddeddf wedi arwain at welliannau yn y defnydd o adnoddau cyhoeddus.<sup>15</sup> Mewn egwyddor, byddai'r pwyslais ar waith atal a gwaith amlasiantaethol sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf yn arwain at adliniad posibl o rolau a chyfrifoldebau, gyda gostyngiadau canlyniadol mewn adnoddau, ond ni ddaeth dim i'r amlwg mewn sgysiau â staff awdurdodau lleol yn ymwneud â'r agwedd hon ar y gwerthusiad.

---

<sup>15</sup> Gweler Tabl 1.2 a Pharagraffau 1.11, a 2.35 am ddealltwriaeth o'r sefyllfa gwariant sy'n ymwneud â COVID-19.



## **4. Casgliadau ac Argymhellion**

4.1 Mae tri phwynt y dylid eu pwysleisio wrth gloi:

### **Costau**

- 4.2 Gan nad oedd digon o ddata ar gael ar oblygiadau cost gweithredu SSWBA, defnyddiwyd casgliad o ddulliau i geisio amcangyfrif y costau dan sylw.
- 4.3 Mewn rhai achosion, megis costau Llywodraeth Cymru a chostau byrddau iechyd, mae'n amlwg bod rhai costau ynghlwm wrth hyn ond ni chafwyd unrhyw amcangyfrifon o'r rhain.
- 4.4 Mewn achosion eraill, megis costau awdurdodau lleol, o'r astudiaethau achos peilot a gynhaliwyd gennym, cafwyd rhai amcangyfrifon o gostau gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn yr awdurdodau lleol dan sylw. Fodd bynnag, roedd y data a gafwyd yn annigonol o ran maint neu ddibynadwyedd ac, felly, nid oedd yn bosibl llunio amcangyfrifon dibynadwy o'r costau Cymru gyfan i lywodraeth leol o ran gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 4.5 O ran costau nad ydynt yn rhai craidd megis y Gronfa Gofal Integredig a grantiau trawsnewid, roedd yn bosibl sefydlu cyfanswm y gwariant, nid oedd yn bosibl, yn yr amser a oedd ar gael, pennu'r dyraniadau i lywodraeth leol, byrddau iechyd a'r trydydd sector. O ganlyniad, ni amcangyfrifwyd graddau'r priodoliad i weithredu'r SSWBA. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r sefyllfa mewn nifer fach o asiantaethau gweithredu unigol yn awgrymu bod y costau hyn, yn ôl pob tebyg, yn gymharol fawr.
- 4.6 Ystyriwyd mai'r canlyniadau a'r buddion a ragwelwyd o weithredu'r SSWBA oedd gwell llesiant a gwell defnydd o adnoddau. Ychydig neu ddim data, meintiol neu ansoddol oedd ar gael i wirio'r canlyniadau a'r buddion hyn.

### **Canfyddiadau cyffredinol**

- 4.7 Nod gwreiddiol y gwerthusiad hwn oedd cynnal dadansoddiad cost a budd i roi amcangyfrif 'mwy cywir' o'r costau a'r manteision i gael dangosydd o'r elw ar fuddsoddiad. Roeddem hefyd wedi bwriadu rhoi sylwadau ar y graddau y priodolwyd canlyniadau gwell o ran gweithredu'r SSWBA a rhoi sylwadau ar effaith ddosbarthiadol y gweithgareddau dan sylw.

- 4.8 Am yr holl resymau a nodir yn yr adroddiad hwn, mae diffyg data perthnasol, ynghyd â'r heriau sy'n gysylltiedig â gallu cael data o'r fath yn ôl-weithredol, wedi golygu na chyflawnwyd y nodau hyn.
- 4.9 Drwy ddadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gan dri awdurdod lleol peilot, gwnaed rhywfaint o amcangyfrif o'r costau ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol hynny. Fodd bynnag, mae diffyg ymagwedd unffurf a gwahaniaethau eang mewn amcangyfrifon wedi golygu na ellid allosod yn rhesymol y costau i lywodraeth leol yng Nghymru o weithredu'r SSWBA ac ni ellid dod i unrhyw gasgliadau pendant.
- 4.10 Byddai'n deg dod i'r casgliad bod yn rhaid cwestiynu'n ddifrifol eglurder ac ystod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf – sef y byddai buddion ychwanegol gweithredu'r ddeddfwriaeth yn drech na'r costau ychwanegol o'i rhoi ar waith yn yr hirdymor. Mae hyn oherwydd nad oes set ddata ar gael ar hyn o bryd y gellir cadarnhau hawliad arni, ac oherwydd bod y dystiolaeth gyfyngedig y gellid ei chasglu gan yr astudiaeth hon yn awgrymu fel arall.

### **Argymhellion**

- 4.11 Rydym yn argymhell yn gryf, gydag unrhyw brosiectau tebyg yn y dyfodol, y dylid nodi fframwaith data sydd ei angen ar gyfer gwerthuso cyn dechrau'r prosiect. Dylid rhoi dulliau casglu data ar waith fel y gellir cynnal gwerthusiad cadarn a dylid ystyried gwerthusiad fel rhan annatod o'r broses o roi rhaglenni a chynlluniau ar waith. Efallai bod tair agwedd i hyn.
- 4.12 Mae angen system adrodd ar wariant sy'n cadw golwg ar gostau (ac arbedion cost) y gellir eu cysylltu â'r Ddeddf. Byddai hyn yn berthnasol i bob asiantaeth weithredu gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r GIG. Rydym yn ymwybodol y gallai nifer fach o awdurdodau lleol yng Nghymru ddatblygu ffurf eginol ar system o'r fath, ond nid yw'n eang nac yn safonol.
- 4.13 Mae gwneud diwygiadau a gwelliannau i'r system casglu data llesiant cenedlaethol presennol i sicrhau bod data sy'n berthnasol i werthuso'r Ddeddf ar gael hefyd yn elfen allweddol.
- 4.14 Mae dylunio a chreu, wrth weithredu asiantaethau, nifer o ddulliau gwerthuso lleol ar gyfer prosiectau dethol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i weithrediad yr SSWBA hefyd yn bwysig. Byddai'r gwerthusiadau hyn, y byddai angen eu sefydlu trwy'r

broses weithredu, yn golygu 'plymio'n ddwfn' i'r prosiect i asesu graddau'r gwelliannau o ran a) llesiant a b) gwell defnydd o adnoddau mewn perthynas â'r gweithgaredd sy'n cael ei werthuso. Gan mai dull detholus yw hwn, ni fyddai'r prosiectau gwerthuso hyn yn rhoi darlun cyflawn o'r holl waith o weithredu'r SSWBA, ond mae'n bosibl y byddent yn cynnig dull y gellid ei allosod i'r cyfan.

## Cyfeiriadau

Frick, K.D., and Kunz, J.L. (2008). Understanding cost-effectiveness research applied to social work. *Social work in public health*, 23(6), 7–21. <https://doi.org/10.1080/19371910802059528>

Marsh, K., Phillips, C.J., Fordham, R., Bertranou, E. and Hale, J. (2012) Estimating cost-effectiveness in public health: a summary of modelling and valuation methods, *Health Economics Review*, 2, (1), tt. 1-6

Lyttleton-Smith, J., Anderson, P., Read, S. & Harris, S. (2022). *Llesiant: Ymchwil i gefnogi Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd*. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 37/2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/llesiant-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>

Phillips, C., Prowle, M., Tetlow S. and Williams, Z. (2020) 'Adolygiad llenyddiaeth goblygiadau ariannol ac economaidd' yn Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (argr). (2020) Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 60/2020. Ar gael yn: <https://gov.wales/evaluation-social-services-and-well-being-wales-act-2014-literature-review>

Sanders, T., Grove, A., Selway, S., Hampshaw, S. & Goyder E. (2017) Incorporation of health economic modelling tool into public health commissioning: Evidence in use in a politicised context. *Social Science and Medicine*, 186, 122-129.

Stein K.V., Evers S., Rutten-van Molken M., Paulus A. and Tsachristas A. (2016) Kicking off the Special Interest Group Health Economics in Integrated Care – key questions and actions to move research forward. *International Journal of Integrated Care*, 16 (6).

Teresi J.A., Ocepek-Welikson K., Toner J.A. et al (2017) Methodological issues in measuring subjective well-being and quality-of-life: Applications to assessment of affect in older, chronically and cognitively impaired, ethnically diverse groups using the Feeling Tone Questionnaire. *Applied Research in Quality of Life*, 12 (2) 251-288